# Cynllun Gweithredu SMART

| Gweithred | Manylder | Mesuro | Addasrwydd | Realistig | Amser | Staff Cyfrifol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.<br>Mynd ati i glywed barn fyfyrwyr ar gynaladwyedd yn y Brifysgol a'r Undeb. | Byddwn yn siarad â myfyrwyr a chreu arolwg i gasglu eu barn. Bydd y rheiny wedyn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i rannu gyda myfyrwyr a dangos beth fyddwn yn ei wneud eleni. | Cael 50 o ymatebion fydd ein nod. Bydd yr ymatebion hyn hefyd yn fanwl yn cynnwys esboniadau ar pam fod myfyrwyr yn teimlo felly. Dyn ni am i dros hanner o'r ymchwil a gesglir ddod o siarad â myfyrwyr wyneb-yn-wyneb gan fod y rheiny yn denu mwy o fyfyrwyr i'r prosiect yn gyffredinol. | Mae'r weithred hon yn cysylltu'n uniongyrchol ag un o adrannau'r Effaith Werdd. Ar sail arolygon eraill a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n bosib cael y nifer o ymatebion hyn a'i fod yn cynnig man cychwyn da i arolygon amgylcheddol yn y dyfodol. | Ni fydd y weithred hon yn gostus oni bai ein bod am hyrwyddo'r arolwg gyda gwobrau. Bydd rhaid i ni roi amser i ysgrifennu'r arolwg a'i gyfieithu i'r Gymraeg, ei hyrwyddo dros y cyfryngau, a'i drafod gyda myfyrwyr yn wyneb-yn-wyneb. | Ysgrifennu'r arolwg:1af Hydref.<br><br>Cyfieithu'r arolwg: 10fed Hydref.<br><br>Rhyddhau'r arolwg: 13eg Hydref.<br><br>Gorffen yr arolwg: 28ain Hydref.<br><br>Prosesu'r Ymatebion: 4ydd Tachwedd.<br><br>Cyhoeddi'r adroddiad: 11eg Tachwedd. | Llywydd Undeb y Myfyrwyr<br><br>Cyfieithydd Undeb y Myfyrwyr | Cwblhawyd<br>. |
| 2.<br>Cynnal Wythnos Amgylcheddol | Cynnal wythnos benodol ar thema gynaladwyedd. Bydd hyn yn cynnwys | Os daw 10 o bobl i wirfoddol ar ein diwrnod o weithredu. Os cawn ni 15 o | Efallai mai'r diwrnod di-blastig fydd anoddaf fodd bynnag, ar sail | Mae eisoes gennym ni gysylltiadau gyda grwpiau a sefydliadau | Cynnal Wythnos Werdd: 27ain Chwefror. | Llysgennad Myfyrwyr | Cwblhawyd |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gydag Undeb y Myfyrwyr. | trafodaethau gan staff/ymgyrchwyr amgylcheddol pwysig. Diwrnod di-blastig yn y gwasanaethau lletygarwch. Cyhoeddi blogiau ar gynaladwyedd amgylcheddol. Rhedeg diwrnod o weithredu i wirfoddolwyr fod yn rhan. | fyfyrwyr yn mynychu un o’r trafodaethau. Os llwyddwn i annog i’r gwasanaethau lletygarwch gymryd rhan yn y diwrnod di-blastig. | nifer y bobl a ddaeth i’r digwyddiadau eraill, bydd yn bosib i ni ddenu digon o fyfyrwyr i’r digwyddiad hwn. Mae hefyd yn ymwneud â’r hyn mae myfyrwyr wedi’i ofyn gennym ac yn dilyn yr hyn mae undeb eraill ar draws y DU wedi’i wneud yn llwyddiannus. | gwirfoddol i ni allu cynnal diwrnodau o weithredu. Dyn ni hefyd mewn cyswllt gydag ymgyrchwyr lleol a allai ddod i siarad a thrafod. | Gwneud posteri i’w hyrwyddo: 13eg Chwefror.<br><br>Cysylltu â sefydliadau eraill: 13eg Ionawr.<br><br>Rhoi cynllun cyffredinol at ei gilydd: 1af Ionawr. | Cydlynydd Gwirfoddoli a Chymdeithasau | |
| 3. Gweithio ar y prif ymgyrch ar gefnogi myfyrwyr yn ystod yr argyfwng costau byw yn ogystal â chreu gofodau amgylcheddol. | Byddwn yn agor gofodau a fydd yn helpu i fyfyrwyr arbed arian a lleihau gwastraff. Bydd hyn ar ffurf gegin a siop gyfnewid. | Gwelsom dros 100 o fyfyrwyr yn defnyddio’r adnoddau. Byddwn yn mesuro hyn gan faint o stoc sy’n mynd a faint o weithiau bydd rhaid i ni ail-lenwi pethau. Byddwn hefyd yn edrych ar arolygon trwy gydol y flwyddyn i weld a ydy barn fyfyrwyr wedi newid ac a | Mae i hyn ffordd o gysylltu â materion cenedlaethol cyfoes i fyfyrwyr. Mae’n anoddach ymroi â’r amcanion hyn ond yn bosib eu gwneud heb os. Ar gyfer cynllun gweithredu llawn ac amcanion | Byddwn yn cael cyfarfod gyda'r tîm cyllid i drafod ei fforddio ac yn seilio faint o hyn y gallwn ei wneud yn seiliedig ar beth yw'r gyllideb a faint o arian y gallwn ei gael o leoedd eraill fel CCAUC. | Ar gyfer amseroedd penodol edrychwch ar y llinell amser ar y ffeil adran ymgyrchoed d a dylanwadu. | Pennaeth cyllid<br><br>Y tîm swyddogion amser llawn.<br><br>cydlynydd cymdeithasau a gwirfoddoli<br><br>Llysgenhadon Myfyrwyr | Wrthi’n gwneud |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ydyn nhw’n teimlo ein bod yn eu cefnogi. | SMART ar gyfer yr adran hon gweler yr adran ar ymgyrchu a dylanwadu. | | | | |
| 4.<br>Byddwn yn dylanwadu ar fyfyrwyr i wneud y penderfyniadau amgylcheddol gorau. | Byddwn yn rhyngweithio'n uniongyrchol â myfyrwyr sy'n gwirfoddoli. Byddwn yn rhyngweithio'n uniongyrchol â chynrychiolwyr myfyrwyr. Byddwn yn rhannu cynnwys ac yn cynnal digwyddiad i fyfyrwyr ddysgu'r arferion amgylcheddol gorau. | Os yw o leiaf tri swyddog gwirfoddol am gydweithio ar faterion amgylcheddol. Os bydd mwy nag 20% o gynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. | Mae pryderon amgylcheddol yn gysylltiedig â llawer o'n grwpiau rhyddhau, felly mae eu cyfranogiad yn bwysig. Gyda'r brifysgol yn edrych ar gynaliadwyedd yn y cwricwlwm mae'n bwysig bod cynrychiolwyr myfyrwyr yn gyfoes ac yn wybodus am gynaliadwyedd amgylcheddol. | Gan fod cymaint y gallwn ei wneud ar gyfer hyn, mae’n golygu y gallwn ymateb i'r hyn y mae myfyrwyr eisiau dysgu amdano. | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn. | Llywydd Undeb y Myfyrwyr.<br><br>Swyddog gwirfoddol yr amgylchedd a chynaliadwyed d<br><br>Cydlynydd cynrychiolwyr | Wrthi’n gwneud |
| 5.<br>Byddwn yn datblygu ein cynllun gweithredol a strategol. | Byddwn yn ychwanegu nodau cynaliadwy at ein cynllun gweithredol ac yn eu dilyn. Gwawn ni ymchwil ar ein cynllun strategol a gwerthoedd yr undeb i wneud yn | Os byddwn yn ychwanegu pum peth at y cynllun gweithredol ac os byddwn yn eu cwblhau. Os byddwn yn diweddaru ein cynllun strategol. Os byddwn yn | Er mwyn i'r undeb ddatblygu ei gynaliadwyedd mae angen i ni newid rhai o'r datganiadau craidd i'n cadw ni'n atebol. | Edrychwn drwy'r cynllun gweithredol ar ddechrau bob blwyddyn. Eleni mae angen i ni ddiweddaru ein cynllun strategol sy'n | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn. | Ymddiriedolwyr yr Undeb<br><br>Staff yr Undeb | Wrthi’n gwneud |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | siŵr bod cynaliadwyedd yn rhan glir ohono. | rhannu'r cynllun strategol newydd. | | golygu ei fod yn amser gwych i wneud hyn. | | | |
| 6. Byddwn yn gweithio gyda'r sefydliad ar faterion amgylcheddol. | Bydd gennym gyfarfodydd parhaus a chysylltiadau cyson â'r undeb i fynd i'r afael â chynaliadwyedd. Byddwn yn ymchwilio i gynllun strategol y brifysgol ac yn helpu i'w ddiweddaru. Byddwn yn gweithio gyda'r hyn y mae'r brifysgol yn ei wneud o ran cynaliadwyedd ac yn ei hyrwyddo. (ee, fferm paneli solar) | Os byddwn ni wedi cynnal o leiaf dri chyfarfod yn uniongyrchol am gynaliadwyedd gyda'r brifysgol. Os byddwn wedi ymchwilio i gynllun strategol y sefydliad gyda nhw ac wedi cyfrannu at newidiadau. Mynychu o leiaf 1 gweithgaredd gyda'r brifysgol ynghylch cynaliadwyedd. | Mae angen i'r undeb wneud newidiadau, ond felly hefyd y sefydliad a chael barn y myfyrwyr i fod yn rhan o'r penderfyniadau mawr sy'n bwysig. Mae gennym ni gysylltiadau da â nhw sy'n gwneud y cyfathrebu hwn yn haws. | Mae gennym ni berthnasoedd gwych gyda'r brifysgol, ac maen nhw'n hapus iawn i undeb y myfyrwyr fod yn rhan o'u prosiectau. Os na chawn ein gwahodd i gyfarfodydd, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwahodd ein hunain. | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn. | Llywydd Undeb y Myfyrwyr<br><br>Swyddog Gwirfoddol dros yr Amgylchedd a Chynaladwyedd | Wrthi'n gwneud |
| 7. Byddwn yn gweithio ar ddadgoloneiddio a datgarboneiddio gweithredoedd, gan gychwyn ar y camau i gyflwyno hyn i wybodaeth myfyrwyr. | Byddwn yn gwneud ymchwil ar ddad-drefedigaethu. Byddwn yn ymchwilio i ddatgarboneiddio. Byddwn yn casglu barn myfyrwyr am hyn. Byddwn yn ymchwilio i'r hyn y mae undebau | Os byddwn yn creu deunydd hyrwyddo ar ddad-drefedigaethu a datgarboneiddio naill ai ar gyfryngau cymdeithasol neu fel gweminar/sgwrs. | Mae llawer o undebau a phrifysgolion yn ymchwilio i hyn, ac mae angen i Aber hefyd. Bydd hon yn broses fwy graddol felly eleni, mae'n bwysig dechrau rhywbeth y | Mae cael hwn fel cam tuag at gynnydd pellach yn golygu bod anghenion eleni yn fwy penodol gan fod hon yn dasg mor fawr i'w chyflawni ni fyddem yn gallu gwneud | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn. | Tîm y Swyddog Llawn Amser<br><br>Swyddog Gwirfoddol TALIE<br><br>Llysgennad Myfyrwyr | Wrthi'n gwneud |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | eraill wedi'i wneud o ran hyn. Byddwn yn ceisio cysylltu â myfyrwyr ynglŷn â hyn gyda gwybodaeth, boed hynny'n negeseuon cyfryngau cymdeithasol, gweminarau neu sgyrsiau. | | gallwn adeiladu arno. Felly, eleni dyn ni am ganolbwyntio ar ddod â'r mater hyn i sylw myfyrwyr a chyflwyno beth ydy a pham ei fod yn bwysig. | popeth sydd angen i ni ei wneud o fewn blwyddyn. | | | |
| 8.<br>Byddwn yn creu dolenni cyfathrebu gwell gyda myfyrwyr. | Byddwn yn diweddaru ein gwefan i wneud yn siŵr bod gan gynaliadwyedd adran glir ar y wefan. Byddwn yn cyfathrebu dros ddwy ffordd ar y cyfryngau cymdeithasol am yr hyn ein bod am ei wneud a hyrwyddo digwyddiadau eco. | Os byddwn yn llwyddo i ddenu diddordeb myfyrwyr trwy ein cynnwys ar-lein. Os yw myfyrwyr yn gwneud sylwadau ar bostiadau ac yn derbyn ymatebion. | Ydyn ni'n gwneud rhai pethau gwych, ond nid yw llawer o fyfyrwyr yn ymwybodol o hyn. Mae angen i ni greu gwell cyfathrebu gyda nhw yn ogystal â gwrando ar yr ffyrdd y mae myfyrwyr eisiau dylanwadu ar ein gwaith. | Mae gennym gyfryngau cymdeithasol gyda rhyngweithio gwych gyda'n myfyrwyr, felly mae angen i ni wneud rhagor o bostiadau ynglŷn â chynaladwyed d amgylcheddol. | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn. | Tîm y Swyddogion Llawn Amser<br><br>Cydlynydd Cyfathrebu<br><br>Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Wrthi'n gwneud |